**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **12 Ionawr 2022** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, D.Keogh, C.James, S.A.Knoyle, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.H.Reynolds, R.L.Taylor, A.N.Woolcock a/ac W.F.Griffiths |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, C.Griffiths, M.Roberts, C.Owen, C.Furlow-Harris, S.Davies, N.Blackmore, J.Woodman-Ralph a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr D.Jones, L.Jones, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

## 1. CROESO A GALW’R RHESTR

Croesawodd y Cynghorydd S Rahaman bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Freeguard | Parthed: Eitem rhif 10 ar yr agenda, Arian Grant y Trydydd Sector, cais ychwanegol am gyllid, gan ei bod hi'n aelod o fwrdd Age Connects. Teimlodd y |

| | |
|---|---|
| | Cynghorydd Freeguard fod ei chysylltiad yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod am yr eitem honno'n unig. |
| Cyflwynodd y Cynghorydd D Jones | Parthed: Eitem rhif 10 ar yr agenda, Arian Grant y Trydydd Sector, cais ychwanegol am gyllid, gan ei bod hi'n aelod o fwrdd Age Connects. Teimlodd y Cynghorydd Jones fod ei chysylltiad yn rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod am yr eitem honno'n unig. |

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Strategaeth Seiberddiogelwch Castell-nedd Port Talbot

Darparwyd trosolwg i aelodau o Strategaeth Seiberddiogelwch Cyngor Castell-nedd Port Talbot, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch diogelwch e-byst ac atal e-byst maleisus. Nodwyd bod protocolau ar waith o fewn y gwasanaethau TG i helpu i ddiogelu gwasanaethau rhag unrhyw e-byst maleisus. Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

Swyddfa Archwilio Cymru - Archwilio asesiad Cyngor Castell-nedd Port Talbot o berfformiad 2020-21

Rhoddodd aelodau glod i swyddogion ar yr adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â Chyngor Castell-nedd Port Talbot yn bodloni ei oblygiadau cyfreithiol.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Arian Grant y Trydydd Sector - Cais ychwanegol am gyllid

Derbyniodd aelodau wybodaeth mewn perthynas â chais a dderbyniwyd ar gyfer arian grant y trydydd sector ar ôl y dyddiad cau swyddogol.

Gofynnodd aelodau am y rhesymau dros y cais hwyr a gofynnwyd am sicrwydd na fyddai ceisiadau hwyr yn y dyfodol yn cael eu blaenoriaethu. Cadarnhaodd swyddogion ei bod yn broblem weinyddol ac na fyddent yn cael eu blaenoriaethu wrth symud ymlaen.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2020/21**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**